OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2506

# Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013

## RHAN 6

### Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen

**Ystyr "tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd"**

**25.** Yn y Rhan hon ystyr "tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd" ("*organic manure with high readily available nitrogen*") yw tail organig y mae mwy na 30 % o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd ar yr adeg y taenir y tail.

**Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd**

**26.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 27 a 28, ni chaiff neb daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir rhwng y dyddiadau canlynol, sydd bob un ohonynt yn ddyddiadau cynwysedig ("y cyfnod gwaharddedig")—

**Y cyfnod gwaharddedig**

| | *Hyd at 31 Rhag 2013* | | *Ar neu ar ôl 1 Ion 2014* | |
|---|---|---|---|---|
| Math o bridd | Glaswelltir | Tir tro | Glaswelltir | Tir tro |
| Pridd tywodlyd neu denau | 1 Medi i 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr | 1 Medi i 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr |
| Pob math arall o bridd | 15 Hydref i 15 Ionawr | 1 Hydref I 15 Ionawr | 15 Hydref i 31 Ionawr | 1 Hydref i 31 Ionawr |

**Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi**

**27.** Caniateir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir tro lle mae'r pridd yn dywodlyd neu'n denau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynwysedig, ar yr amod yr heuir y cnwd ar neu cyn 15 Medi.

**Esemptiadau ar gyfer daliadau organig**

**28.** Caiff meddiannydd daliad sydd wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd organig gyda chorff a gofrestrwyd gyda'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig(**1**) daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg—

(**1**) Corff cyhoeddus anadrannol anweithredol yw'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig, sy'n cymeradwyo cyrff arolygu organig.

(a) ar gnydau a restrir yn y tabl yn Atodlen 4 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu

(b) ar gnydau eraill yn unol â chyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau(**2**),

ar yr amod na fydd pob hectar y mae tail organig yn cael ei daenu arno yn cael mwy na chyfanswm o 150 kg o nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd Chwefror.

### Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig

**29.** O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd Chwefror—

(a) 30 metr ciwbig yr hectar yw'r uchafswm o slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg ac 8 tunnell yr hectar yw'r uchafswm o dail dofednod y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg; a

(b) rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

### Amseroedd pan waherddir taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd

**30.**—(1) Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ar dir yn ystod y cyfnodau canlynol (mae pob dyddiad yn gynwysedig)—

(a) yn achos glaswelltir, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu

(b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

(2) Caniateir taenu gwrtaith yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4, ar yr amod nad eir dros ben y gyfradd uchaf yng ngholofn 2.

(3) Caniateir taenu yn ystod y cyfnodau hyn ar gnydau nad ydynt yn Atodlen 4 ar sail cyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau.

(**2**) Gweinyddir y cynllun gan Basis Registration Ltd, a gellir cael rhestr o bersonau cymwysedig drwy wneud cais i'r cwmni, neu ar ei wefan, www.basis-reg.com.